**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**DYDD MAWRTH, 27 MEDI 2022**

**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: J.Hurley (Cadeirydd) a/ac N.Jenkins

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

R.Crowhurst, I.Guy, Ms.A.Harris, H.Lervy, PWalker, K.Windsor-Brown, ac N Jones

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Jeremy Hurley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith Bwrdd yr Amgylchedd, Adfywio a Strydlun y Cabinet yn cael ei nodi.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

6. **GWAREDU TIR YNG NGHANOLFAN HAMDDEN CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

a) Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig, bod y tir a'r fangre yng Nghanolfan Hamdden Castell-nedd yn Heol Dyfed, Castell-nedd yn cael ei ddatgan fel eiddo nad oes ei angen mwyach ar gyfer gofynion Gwasanaethau Hamdden strategol, parhaus y Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.

b) Pan fydd Canolfan Hamdden Castell-nedd yn wag, bod y cyfrifoldeb parhaus am reoli a gwaredu'r fangre yn y dyfodol yn cael ei drosglwyddo i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

c) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyfranogiad a'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i dderbyn ildiad y brydles bresennol ar gyfer y cyfleuster gan y tenant presennol.

d) Bod y Pennaeth Eiddo ac Adfywio, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn cael awdurdod dirprwyedig i gyflwyno rhybudd o derfyniad a sicrhau y ceir meddiant gwag o ran o'r cyfleuster gan yr is-denant presennol.

e) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio, ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, i ymrwymo i brydles tymor byr er mwyn i Hamdden Celtic weithredu Canolfan Hamdden newydd Castell-nedd o'i hagoriad tan ddyddiad trosglwyddo'r gwasanaethau hamdden dan do i'r cyngor ar 31 Mawrth 2023 (neu os na fodlonir y dyddiad 31 Mawrth 2023, y dyddiad pan ddaw'r gwasanaethau hamdden yn ôl yn fewnol).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Ni fydd Canolfan Hamdden Castell-nedd yn Heol Dyfed, Castell-nedd yn weithredol mwyach pan fydd y cyfleuster yn cau a staff a defnyddwyr yn cael eu hadleoli i Ganolfan Hamdden newydd yng nghanol y dref yn ystod Hydref 2022 ac felly, ni fydd angen cyfleuster Heol Dyfed mwyach at ddibenion hamdden gweithredol a strategol parhaus y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes. Bydd trefnu i Hamdden Celtic weithredu'r Ganolfan Hamdden newydd tan yr amser pan fydd y cyngor yn dod yn gyfrifol am gynnal ei wasanaethau hamdden yn sicrhau gweithrediad y cyfleusterau newydd o'u hagoriad, a darpariaeth barhaus cyfleusterau hamdden yng Nghastell-nedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu Addysg, Sgiliau a Lles, caiff y penderfyniad ei roi ar waith yn syth ac ni fydd y cyfnod galw i mewn o dridiau'n berthnasol iddo.

**Ymgynghoriad:**

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

7. **CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bod cymeradwyaeth yn cael ei roi i gyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i'r cyngor er mwyn cael caniatâd i'w gyhoeddi a bwrw ati i'w roi ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu Addysg, Sgiliau a Lles, caiff y penderfyniad ei roi ar waith yn syth ac ni fydd y cyfnod galw i mewn o dridiau'n berthnasol iddo. Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

**Ymgynghoriad:**

Roedd yr eitem yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid am gyfnod o naw wythnos.

8. **ASESIAD DIGONOLRWYDD CHWARAE**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, bod cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer darparu a datblygu chwarae yn yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ymgymryd â chynllun gweithredu statudol a gaiff ei ddatblygu o Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 i sicrhau bod cymaint â phosib o adnoddau ar gael ar gyfer chwarae er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a gynigir ar draws y sir.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu Addysg, Sgiliau a Lles, caiff y penderfyniad ei roi ar waith yn syth ac ni fydd y cyfnod galw i mewn o dridiau'n berthnasol iddo. Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith.

**Ymgynghoriad:**

Nid yw'n ofynnol cynnal ymgynghoriad allanol.

9. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**